MARK ISHERWOOD MS|AS
Member of the Welsh Parliament for **North Wales**
Aelod Senedd Cymru dros **Ogledd Cymru**
Senedd Cymru Welsh Parliament
Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

10 Rhagfyr 2025

Annwyl Mike,

Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Diolch i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad am eich gwaith craffu ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) ("y Bil") yn ystod Cyfnod 1 ac am yr adroddiad a gyhoeddwyd ar 4 Rhagfyr 2025. Rwyf wedi nodi fy ymateb i gasgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn Atodiad A.

Nid yw wedi bod yn bosibl i mi dderbyn pob un o argymhellion y Pwyllgor, ac rwyf wedi rhoi rhesymau dros hyn yn yr ymateb manwl yn Atodiad A.

Yn olaf, roeddwn am ichi wybod y byddaf hefyd yn ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol mewn perthynas ag adroddiad Cyfnod 1 y pwyllgor hwnnw. Byddaf yn anfon copi o'r llythyr atoch bryd hynny. Rwyf eisoes wedi rhannu fy ymateb i adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Cyllid â chi.

Cofion,

Mark Isherwood AS
Aelod o Senedd Cymru dros Ogledd Cymru

Atodiad A

Ymateb gan Mark Isherwood AS i Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru)

Argymhelliad 1. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i'r Bil i'w gwneud yn ofynnol i'r canllawiau statudol a gyhoeddir o dan adran 3, ac unrhyw ddiwygiadau iddynt yn y dyfodol, gael eu gosod gerbron y Senedd.
Ymateb: Gwrthod Rwyf wedi ystyried yr argymhelliad hwn yn ofalus, ac wedi trafod y mater ag Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol. Wedi pwyso a mesur, rwy'n gwrthod yr argymhelliad. Fel y mae'r Pwyllgor ei hun wedi'i nodi, byddai'n anarferol i Lywodraeth Cymru osod canllawiau o'r fath, ac ni fyddai'r Senedd fel arfer yn craffu yn uniongyrchol ar ganllawiau o'r math hwn. Er hynny, fel yr amlinellais yn fy nhystiolaeth i'r Pwyllgor, rwy'n disgwyl y bydd Aelodau o'r Senedd a phwyllgorau'r Senedd yn cadw llygad barcud ar y canllawiau ac ar y ffordd y mae'r ddeddfwriaeth yn ei chyfanrwydd yn cael ei gweithredu, a chredaf y byddai hynny'n wir pa un a osodir y canllawiau ai peidio. Fel y gwyddoch efallai, mae'r Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol wedi gwneud dau argymhelliad mewn perthynas â'r canllawiau IAP a fyddai'n ofynnol o dan y Bil. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud yn benodol ag ychwanegu gofyniad o fewn y Bil i'r canllawiau gael eu cyhoeddi ar yr un pryd neu oddeutu'r un pryd â'r Strategaeth IAP Genedlaethol. Mae'r ail argymhelliad yn ymwneud ag ychwanegu dyletswydd i ymgynghori ar y canllawiau. Byddaf yn derbyn yr argymhellion hyn, gan gyflwyno'r gwelliannau gofynnol yng Nghyfnod 2. Os cânt eu derbyn, caiff gofyniad ei osod ar wyneb y Bil bod y canllawiau'n cael eu cyhoeddi. Er nad yw hyn yn diwallu galwad y Pwyllgor Cyfiawnder Lleol iddynt gael eu cyflwyno, mae'n golygu y byddai'r canllawiau yn gyhoeddus cyn gynted ag y byddent ar gael.

Argymhelliad 2. Dylai'r Aelod sy'n gyfrifol ystyried rhinweddau pennu nifer lleiaf a nifer uchaf o aelodau a ddylai eistedd ar y panel.
Ymateb: Derbyn Byddwn i'n fwy na bodlon ystyried rhinweddau pennu nifer lleiaf a nifer uchaf o aelodau a ddylai eistedd ar y panel. Os teimlir ei bod yn angenrheidiol, neu'n briodol, byddaf yn cyflwyno gwelliant yng Nghyfnod 2 i gynnwys nifer lleiaf a nifer uchaf ar wyneb y Bil.
Argymhelliad 3. Er eglurder, dylai'r Aelod sy'n gyfrifol gyflwyno gwelliant i adran 8(1)(c) i adlewyrchu enwau llawn Ymddiriedolaethau GIG Cymru penodedig drwy gyfeirio at eu gorchmynion sefydlu cyfatebol.
Ymateb: Derbyn Fel yr amlinellais i'r Pwyllgor yn ystod Cyfnod 1, nid wyf yn credu y byddai geiriad adran 8(1) o'r Bil yn peri unrhyw ddryswch. Fodd bynnag, gan mai mater drafftio yn unig yw hwn, byddaf yn cyflwyno gwelliannau yng Nghyfnod 2 i adlewyrchu enwau llawn Ymddiriedolaethau GIG penodol Cymru.